ECAD6008 2022-23

BA3

# Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

**Darlithydd: Nia Wyn Evans**

**n.evans@pcydds.ac.uk**

## Darlith 2: 24.11.2022

# Defnyddio ffuglen




# Dewis testun addas ar gyfer eich grwp …


- Mae angen i'r testun darllen fod yn anghyfarwydd.
- Mae angen bod y disgyblion yn gallu darllen tua 90% o'r geiriau.























# Yn eich grwpiau ….

1. Darllenwch y llyfr stori.

2. Yna, trafodwch pa eiriau fyddai'n gallu achosi trafferth i'r disgyblion.

3. Ysgrifennwch y geiriau hynny ar y cardiau bach.

4. Sut gallwch chi gyflwyno'r geiriau i'r disgyblion?




| | | | |
|---|---|---|---|
| seren | unig | gofynnodd | atebodd |
| Dewin | Doeth | mêl | bechod |
| gwylio | seren | flasus | galwodd |
| dechrau | chwyrnu | edrychodd | taflodd |
| ffenest | disgleirio | clywodd | Daeth |
| sniffian | Teimlodd | ddafnau | yn gynnes |
| disgyn | chalon | atebodd | gwely |

# Datblygu'r darllen …


Mae "darllen" yn fwy nag edrych ar air a gallu ei ddweud neu ei ysgrifennu. Mae "darllen" yn golygu "deall" a "dehongli". Os na fyddwn i'n annog ein plant o oedran ifanc i ymdrechu i ddeall a dehongli'r byd, yna rydan ni'n cyfyngu eu dyfodol.

Anni Llyn




https://resource-centre-uploads.s3.amazonaws.com/uploads/barod_i_ddarllen1.pdf

# Datblygu'r darllen …









Yn yr addysgu mwyaf effeithiol, mae staff yn defnyddio ystod o ddulliau, gan gynnwys darllen ar y cyd, darllen mewn grŵp a darllen dan arweiniad i wella rhuglder a medrau dealltwriaeth dysgwyr.


https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=&ved=2ahUKEwiW07KnnP32AhUChlwKHdE9AbgQFnoECAIQAQ&url=https%3A%2F%2Fmoodle.cynnal.co.uk%2Fmod%2Fresource%2Fview.php%3Fid%3D17899&usg=AOvVaw3WkjWqoE3C1BgRQMOwsIqk





# Sut mae modd defnyddio'r un cysyniadau gyda disgyblion CA2?

















Mêts Maesllan
Mêts
Maesllan


Dyma ni.
Ben
Mim
Wil
Sam
Bob
O ie – a Bob y ci, wrth gwrs!







Dyma Mam yn y gwaith.




Gwaith Dad ydy garddio.






Dyma fy hoff fwyd. Mmm...

| Ffeil-o-ffaith | |
|---|---|
| Enw | Mim |
| Oed | 10 |
| Lliw gwallt | brown |
| Teulu | Mam, Dad, Tim ac Efa |
| Ffaith | ci o'r enw Bob |


Gwyn
a
Gwenno


Pennod 1
Mis Hydref oedd hi, ac roedd y tonnau uchel yn taro a tharo ar Draeth y De yn Aberystwyth. Roedd eu hewyn fel hufen dros y tywod a sŵn y r yn atseinio wrth iddo lifo drwy'r cerrig mân. Roedd y llanw uchel wedi bod, ac erbyn hyn roedd y môr yn cilio'n ôl yn araf bach.

haul heb sbecian drwy'r [redacted] o gwbl eto. Roedd y cymylau ar y gorwel yn ddigon tywyll a chrac yr olwg ac roedd ambell ddiferyn o law yn [redacted] fan hyn a fan draw.

Ar y prom, y ffordd fach uwchben y traeth, cerddai Gwyn a Gwenno, a'u [redacted] wedi'u stwffio'n ddwfn i'w pocedi. Roedd hi'n wyliau hanner tymor, ond roedd eu rhieni wedi dweud wrthyn nhw am fynd am dro i'r traeth. Ond beth oedd pwynt dod i'r [redacted] yn yr hydref? Doedd dim haul, dim hwyl, dim hufen iâ. Doedd dim byd ond gwynt, yn llosgi'r clustiau ac yn dod â [redacted] i'r llygaid.

Merch dal a main oedd Gwenno, a'i gwallt cyrliog, du yn cael ei chwythu i bob cyfeiriad. Oherwydd bod Gwyn rai modfeddi'n fyrrach, roedd ychydig o




gysgod ganddo wrth ei hymyl. Roedd Gwyn yn fachgen cryf o'i oedran, a'i wallt yn goch, goch. Roedd y ddau'n ffrindiau mawr, yn byw drws nesaf i'w gilydd yn y dref ac yn cerdded i'r ysgol gyda'i gilydd bob dydd.


Cerddodd Gwyn a Gwenno yn arafach ac yn arafach, gan siarad fel pwll y môr. Am eiliad, roedd yn rhaid i'r siarad ddod i stop am dipyn wrth i'r gwynt godi eto.

Edrychodd y ddau draw at y traeth. Roedd llinell anniben o froc môr yn ymestyn ar ei hyd - rhyw hanner can metr o'r ffordd ac ychydig gamau o'r tonnau. Darnau pren o bob siâp, wedi eu golchi a'u torri a'u plygu gan y dŵr. Rhaffau oren, cewyll pysgotwyr, darnau o blastig glas, gwymon llithrig a phethau rhyfedd na wyddai Gwyn na Gwenno beth oedden nhw.

Yn sydyn, gwelodd Gwyn fflach o olau'n disgleirio yng nghanol y broc môr. Edrychodd ar Gwenno; roedd hithau wedi sylwi hefyd. Nodiodd Gwyn i gyfeiriad y fflach, a nodiodd Gwenno hefyd. Neidiodd y ddau dros y wal fach at y traeth a cherdded yn araf ac yn ofalus dros y cerrig llithrig.





| | | | |
|---|---|---|---|
| tonnau | Aberystwyth | eu hewyn | atseinio |
| cerrig | llanw uchel | cilio | sbecian |
| cymylau | gorwel | a **ch**rac | cerddai |
| stwffio | rhieni | modfeddi | Yn fyrrach |
| arafach | anniben | o **f**roc môr | ymestyn |
| cewyll | pysgotwyr | gwymon | llithrig |
| disgleirio | llithrig | | |




Tudalennau 5 i 10.

## Heddiw, y cwestiynau cudd ydy …


- Pa adeg o'r flwyddyn ydy hi?
- Sut mae Alfred yn teimlo?  Pam?





# 1

# Y noson cyn y bore cyntaf

Gorweddai Alfred ar wastad ei gefn yn ei wely'n syllu ar y nenfwd. Roedd y sticeri sêr bach yn gloywi drwy'r tywyllwch a gallai weld gwregys sgleiniog Orion, yr heliwr mawr, yn glir. Gwregys. O! roedd Alfred yn hoffi dweud y gair



Orion: dyma'r enw sy'n cael ei roi ar y patrwm o sêr ry'n ni'n ei weld uwchben Cymru yn ystod y gaeaf.




'gwr-e-gys'. Roedd e'n air crynshi. Lot gwell na 'belt'. Ac uwch y gwregys gallai weld bwa a saeth Orion yn pwyntio'n syth tuag ato. Wel, tuag at waelod ei fola a bod yn fanwl gywir. Oherwydd yn y fan honno, reit yng ngwaelod ei fola, roedd teimlad trwm. Teimlad fel bricsen o drwm. Teimlad a ddwedai wrtho mai fory oedd diwrnod cyntaf tymor newydd yr ysgol. A theimlad a ddwedai wrtho nad oedd e'n edrych ymlaen o gwbl at fynd yn ôl i'r hen le.

Peidiwch â chamddeall. Roedd Alfred wedi bod yn hapus iawn yn Ysgol y Garn am bum mlynedd. Ac roedd e wedi

Wel, chwech os y'ch chi'n cyfri'r flwyddyn yn y Dosbarth Meithrin gyda Mrs Lloyd.




edrych ymlaen yn fawr at ei flwyddyn olaf. Blwyddyn y Cyngor Ysgol, y Plant Mawr a'r Swyddogion. Blwyddyn y Siop Ffrwythau a Dyletswydd Amser Cinio ... Blwyddyn Miss Hughes.

Miss Hughes gyda'r ffrogiau lliwgar. Miss Hughes gyda'r ewinedd pinc. Miss Hughes gyda'r wên garedig a'r arogl blodau a lafant a mefus a mafon. Miss Hughes na fyddai byth yn rhoi stŵr i neb. Miss Hughes oedd yn canu'r gitâr ac yn swnio fel angyles. Miss Hughes, yr athrawes orau erioed.


Miss *Arianwen* Hughes.

Ond ar ddiwrnod olaf y flwyddyn, wrth i'r plant dynnu popeth oddi ar y waliau a rhoi eu gwaith i gyd mewn




# Heddiw, y cwestiynau cudd ydy …

- Pa deimladau gwahanol mae Sam yn eu teimlo ar ôl bod ym mharti Rhys?
- Pa deimladau gwahanol mae Mai yn eu teimlo ar ôl bod ym mharti Rhys?
- Pryd mae teimladau'r efeilliad yr un fath?







# Sam

Roedd o'n anhygoel.

Cyn i ni fynd adref, cafodd pawb eu hanfon y tu allan. Roeddwn i'n meddwl bod hynny'n rhyfedd, braidd, a hithau fel bol buwch y tu allan a phob dim mor gynnes a chlyd y tu mewn i'r babell fawr. Ond wedyn dechreuodd y sioe fawr.

Tân gwyllt.

Roedd o'n anhygoel. Aeth yr holl beth ymlaen am bum munud, gan lenwi'r awyr â lliwiau. Wrth i bawb



wylio'r awyr, cymerais innau gip draw ar Rhys, oedd yn sefyll yn y blaen. Roedd ei fam a'i dad yn sefyll y tu ôl iddo, law yn llaw, ac roedden nhw'n sbïo arno fo mor gariadus. Roedd y ddau mor falch i'w mab gael parti mor llwyddiannus.

Mae'n rhaid eu bod nhw'n ei garu o'n fawr i wario cymaint o bres arno fo.

Ar ôl i'r tân gwyllt orffen, aeth pawb yn ôl i'r babell i ganu pen-blwydd hapus i Rhys a chael darn o gacen. Roedd o'n anhygoel - cacen siocled oedd hi, a chefais i ddarn efo ychydig o Maltesers a llygod bach siocled gwyn. Ar ôl bwyta fel mochyn drwy'r nos, roeddwn i'n teimlo braidd yn sâl wedyn, ond doedd dim ots.

Ar ôl cael bag parti yr un i fynd adref, dechreuodd pawb adael. Ffarweliais ag Oli a'r hogiau, cyn dechrau cerdded adref gyda Mai, fy ngefeilles.

'Wnest ti flasu'r gacen yna?' gofynnais wrth i ni gerdded i fyny'r lôn am adref. 'Roedd hi'n anhygoel!'

'Mi ges i ychydig. Roedd hi'n ocê.'

Ysgydwais fy mhen. Mae Mai yn anodd iawn ei phlesio weithiau. 'O, tyrd yn dy flaen, Mai. Roedd hwnna'n barti anhygoel.'

'Os wyt ti'n licio'r math yna o beth.'

Yn ôl yn y tŷ, roedd Mam yn aros amdanon ni. Roedd hi'n hwyr, ond ar ôl newid i'n pyjamas, cefais i a Mai eistedd wrth fwrdd y gegin i yfed llaeth cynnes ac i drafod y parti.

Gwagiais fy mag parti ar y bwrdd.

'Bobol bach! Cit hofrennydd model; bar siocled anferth; sticeri pêl-droed; bag o dda-da!' Gwenais o glust i glust. Roedd rhieni Rhys mor hael! 'Sbïa i weld be' gest ti, Mai!'